Adroddiad ar

Ysgol Llanilar

Llanilar
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4PA

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanilar

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanilar |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 110 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 93 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 5.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 6.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 47.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Tachwedd 2019 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol sy'n cyfrannu at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, gan ddarparu cymorth ac adborth defnyddiol iddynt. Maent yn galluogi disgyblion i ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu o oedran ifanc sy'n cynnwys dewis dulliau buddiol o gyflwyno'u gwaith, dewis lefel her gweithgareddau a chodi ymwybyddiaeth o'r agweddau y mae angen iddynt eu datblygu yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn gadarn mewn gweithgareddau ymarferol ar draws y meysydd dysgu sy'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o'r themâu yn dda. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes pobl ddu ac Asiaidd ac amrywiaeth mewn cymdeithas yn ystod gweithgareddau dysgu.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar waith yr ysgol yn gryfder, sy'n cynnwys cynnig syniadau a gweithgareddau o fewn y themâu, ac effeithiolrwydd grwpiau 'Lleisiau Ilar'. Mae effaith eu gwaith yn cynnwys dylanwadu ar welliannau yn y gymuned leol a darparu cyfleoedd i ddylanwadu ar les disgyblion mewn gweithgareddau hwyliog.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a dulliau cyfathrebu effeithiol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cefnogi'r disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach â'u dysgu yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a staff yn manteisio ar arbenigedd a chefnogaeth aelodau'r corff llywodraethwyr cydwybodol sy'n adnabod cryfderau ac agweddau i'r ysgol eu datblygu yn drylwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes pobl ddu ac Asiaidd ac amrywiaeth mewn cymdeithas yn ystod gweithgareddau dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol, wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned leol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cynnes ac adeiladol â disgyblion ac yn eu hadnabod yn drylwyr.

Mae gwerthoedd moesol, fel parch a chwrteisi, yn cael eu hybu'n gyson fel rhan annatod o ethos yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu a pharch at ei gilydd. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a'r profiadau cyfoethog sy'n cael eu darparu gan staff ar gyfer eu plant.

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'n arddel ei gweledigaeth yn glir ac yn ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion. Mae ethos Cymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae gwaith tîm hynod effeithiol yn bodoli ac mae staff yn dangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol sy'n esiampl gadarnhaol i'r disgyblion.

Mae staff yn darparu cwricwlwm cyffrous sydd yn cwmpasu'r meysydd dysgu yn effeithiol. Maent yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion a'u perchnogaeth o themâu. Er enghraifft, mae disgyblion yn dewis cyfrwng digidol addas i gyflwyno chwedl Cantre'r Gwaelod i eraill mewn dull rhagweithiol.

Cryfder amlwg o waith yr ysgol yw ei rôl o fewn ei chymuned ehangach. Mae disgyblion yn chwarae rhan allweddol fel rhan o'r trefniadau hyn, fel wrth iddynt gyfarfod gyda'r cynghorwyr lleol i drafod materion sy'n bwysig iddynt yn y pentref. O ganlyniad, mae profiadau cyfoethog yn cyfrannu'n hynod lwyddiannus at ddatblygu disgyblion fel dinasyddion aeddfed a chydwybodol sy'n arddangos gofal a pharch at eu hamgylchfyd.

Fel rhan o'r amgylchedd dysgu ysgogol, mae'r ardaloedd dysgu yn cynnwys gweithgareddau difyr sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol ac ymarferol disgyblion. Mae'r ardaloedd allanol yn cynnwys ystod o offer pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion wrth ddatblygu eu lles ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu, a'u medrau corfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau ar draws y meysydd dysgu yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau llafar a darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol mewn ystod werthfawr o weithgareddau. Mae staff yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, sy'n cynnwys ysgrifennu darn i berswadio teuluoedd i adael i'w plant ffoi i'r wlad yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau rhif y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn. Er enghraifft, darperir cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ieuengaf lunio graff didoli anifeiliaid ac i'r disgyblion hynaf fesur cynhwysion ryseitiau amser rhyfel.

O oedran ifanc, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn llwyddiannus i ymchwilio ac i gefnogi eu dysgu mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu yn rheolaidd. Mae cyfleoedd bwriadus iddynt ddatblygu eu medrau creadigol, sy'n cynnwys creu graffiti fel rhan o thema celf yr amgylchedd a pherfformio dawns i gyd-fynd â thema Cantre'r Gwaelod.

### Ciplun 1: Addysgu effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyflawni eu gweithgareddau yn annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion wrth iddynt gydweithio a datblygu eu syniadau ar y cyd. Mae dilyniant yn natblygiad disgyblion i ddysgu'n annibynnol o oedran ifanc yn gryfder. Mae disgyblion yn dewis lefel her y gweithgareddau yn hyderus gan esbonio rheswm dros eu penderfyniad yn aeddfed. Maent yn dyfalbarhau ac yn chwilio am ddull arall i lwyddo pan fyddant yn wynebu anawsterau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau.

Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella o fewn eu dysgu. Trwy hyn, maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i bennu camau dysgu nesaf i ddisgyblion. Caiff cynnydd disgyblion ei werthuso'n rheolaidd sy'n eu galluogi i adnabod y camau nesaf eu dysgu yn hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol a chynhwysol. Trwy gydweithio agos â rhieni a phartneriaethau allanol, mae staff yn addasu'r gefnogaeth i hyrwyddo lles a datblygiad personol disgyblion yn effeithiol. Mae rhaglenni cymorth wedi'u teilwra'n fwriadus i gefnogi disgyblion, gyda gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn drylwyr a defnyddiol fel modd hyblyg o gefnogi'r disgyblion. Mae'r gefnogaeth yn meithrin annibyniaeth a chefnogi cynnydd disgyblion yn llwyddiannus.

## Ciplun 2: Dylanwad effeithiol disgyblion ar fywyd a gwaith yr ysgol

Mae dylanwad disgyblion ar ystod o agweddau'r ysgol yn gryfder amlwg ac wedi'i wreiddio dros amser. Mae disgyblion yn weithredol yn arwain sesiynau cyd-addoli a chynnal gweithgareddau iechyd a lles gyda'u cyfoedion ar draws yr ysgol. O oedran ifanc, maent yn arwain y dysgu trwy gynnig syniadau ar gyfer themâu a gweithgareddau dysgu. Yn yr arfer orau, mae'r gweithgareddau sy'n dilyn thema 'Trafferthion Llanilar' yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau trigolion yr ardal leol.

Mae grwpiau disgyblion 'Lleisiau Ilar' yn cyfarfod yn gydwybodol ac yn dylanwadu ar fywyd holl ddisgyblion yr ysgol yn fedrus. Mae ymrwymiad aelodau grŵp 'Ffit Ilar' i arwain sesiynau meddylgarwch a gweledigaeth y 'Pencampwyr' i sefydlu gardd synhwyraidd er lles disgyblion yn esiamplau da o'u gwaith.

Mae staff yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau corfforol a chreadigol mewn gweithgareddau hwyliog a difyr. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn yr ysgol, yn y gymuned ac mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae staff yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o hanes pobl du ac Asiaidd ac am bobl a theuluol amrywiol mewn cymdeithas mewn sesiynau buddiol ar y cyd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion astudio'r agweddau hyn yn ystod eu gweithgareddau dysgu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth drylwyr o weithgareddau'r ysgol trwy ymweld yn rheolaidd a thrafod gwaith ochr yn ochr â'r athrawon a'r disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr o daith gwella'r ysgol. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth ar ansawdd yr addysgu a'r profiadau cwricwlaidd i ystyried cynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn rhoi ystyriaeth i farn ac awgrymiadau disgyblion a rhieni ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r canfyddiadau i bennu blaenoriaethau addas ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau dros amser.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i staff, sydd ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Mae cyfleoedd cyson i athrawon drafod arferion effeithiol gyda staff ysgolion eraill yn llwyddiannus, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu profiadau buddiol â gweithwyr eraill.

Mae gan yr ysgol berthynas waith gyson a chadarnhaol â rhieni. Mae rhieni’n hyderus eu bod yn gallu cysylltu â staff i drafod lles ac addysg eu plant, fel y bo’n briodol. Maent yn grediniol bod arwyddair yr ysgol, sef ‘Gwneud eich gorau, sydd orau bob tro’, yn dylanwadu’n uniongyrchol ar ddatblygiad eu plant.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/08/2025